Rhan F – Gweld y gofrestr a'i darparu

Cynnwys

1 Cyflwyniad

2 Cyhoeddi
- Y gofrestr lawn o etholwyr
- Y gofrestr etholwyr wedi'i golygu

3 Archwiliad
- Y gofrestr lawn o etholwyr
- Y gofrestr etholwyr wedi'i golygu
- Archwilio cofrestrau wedi'u marcio a rhestrau pleidleiswyr absennol wedi'u marcio

4 Darparu a gwerthu'r gofrestr lawn, wedi'i golygu a'i marcio
- Diogelwch data a gaiff ei gludo
- Darparu'r gofrestr am ddim ar ôl ei chyhoeddi
- Darparu'r gofrestr am ddim ar gais
- Deddf Rheithgorau 1974
- Cyrff eraill sy'n gwneud cais am y gofrestr
- Gwerthu'r gofrestr lawn
- Gwerthu'r gofrestr wedi'i golygu
- Cyfyngiadau ar y defnydd o'r gofrestr lawn
- Y gofrestr wedi'i marcio
- Cofnodi gwerthiannau o'r gofrestr

5 Hen gopïau o'r gofrestr

6 Cofnodion a rhestrau pleidleisio absennol
- Darparu cofnodion a rhestrau o bleidleisiau absennol i ymgeiswyr, asiantau etholiadol, pleidiau gwleidyddol cofrestredig a chynrychiolwyr etholedig
- Archwilio cofnodion a rhestrau pleidleisio absennol

7 Diogelu data
- Deddf Diogelu Data 1998
- Darparu ceisiadau cofrestru a phleidlais absennol
- Materion yn ymwneud â data cofrestru

8 Adnoddau

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adran hon yn esbonio'r fformat ar gyfer llunio'r gofrestr etholwyr y mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn ei chynnal. Mae hefyd yn rhoi manylion o ran gweld y gofrestr a'i darparu.

1.2 Mae cyfyngiadau ar bwy all weld y gofrestr, unrhyw hysbysiad o addasiad a'r rhestr o etholwyr tramor, ynghyd â'r broses o ddarparu'r dogfennau hyn.

1.3 Yn yr adran hon mae unrhyw gyfeiriad at y gofrestr yn cynnwys yr hysbysiad o addasiad a'r rhestr etholwyr tramor oni nodir fel arall. Yn gyffredinol, dim ond o dan oruchwyliaeth y gellir archwilio'r gofrestr, a dim ond i rai pobl neu asiantau penodedig y gellir darparu copïau a dim ond at ddibenion penodol fel etholiadau,[1] casglu ystadegau,[2] gorfodi'r gyfraith[3] a gwirio statws credyd.[4]

[1] Rheoliadau 98, 100 i 106 a 108, RhCyB 2001; Rheoliadau 97, 99 i 105 a 107, RhCyB (yr Alban) 2001; Gorchymyn Senedd yr Alban; Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007.
[2] Rheoliad 99, RhCyB 2001; Rheoliad 98, RhCyB (yr Alban) 2001.
[3] Rheoliadau 107 a 109, RhCyB 2001; Rheoliadau 106 a 108, RhCyB (Yr Alban) 2001.
[4] Rheoliad 114, RhCyB 2001; Rheoliad 113, RhCyB (yr Alban) 2001.

2 Cyhoeddi

Y gofrestr lawn o etholwyr

2.1 Rhaid cyhoeddi cofrestr etholwyr ddiwygiedig erbyn 1 Rhagfyr bob blwyddyn.[5] Diffinnir cyhoeddi fel sicrhau bod fersiwn ar gael i'r cyhoedd ei weld, o dan oruchwyliaeth, yn swyddfa'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ac mewn mannau eraill o'r fath, os o gwbl, yn eu hardal gofrestru a fydd yn caniatáu i'r cyhoedd fanteisio ar gyfleusterau rhesymol at y diben hwnnw.[6]

2.2 Mae'r gofrestr ddiwygiedig hon yn ymgorffori'r holl ddiwygiadau i'r gofrestr o ganlyniad i'r canfasiad blynyddol, ynghyd ag unrhyw addasiadau cofrestru treigl sydd wedi cwrdd â'r terfyn amser i gael eu cynnwys.

I gael rhagor o wybodaeth am geisiadau cofrestru treigl a'r terfynau amser ar gyfer derbyn ceisiadau er mwyn iddynt gael eu cynnwys ar y gofrestr ddiwygiedig, gweler Rhan Ch, 'Addasiadau misol i'r gofrestr'.

2.3 Mae'r gofrestr lawn o etholwyr yn rhestru enwau a chyfeiriadau pawb sydd wedi cofrestru i bleidleisio fel etholwyr arferol. Mae hefyd yn cynnwys enwau'r rhai sydd wedi cofrestru fel etholwyr categori arbennig, ac eithrio yn achos y rhai sydd wedi cofrestru'n ddienw, lle mai dim ond cofnod a geir, heb ddangos eu henwau na'u cyfeiriadau.

I gael rhagor o wybodaeth am yr etholwyr categori arbennig amrywiol, gweler Rhan Dd, 'Etholwyr categori arbennig'.

2.4 Rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol hefyd gyhoeddi hysbysiadau o addasiadau misol ar y diwrnod gwaith cyntaf o bob mis o fis Ionawr hyd fis Medi. Mae'n rhaid i'r rhain roi cyfrif am unrhyw beth a gaiff ei ychwanegu, ei ddileu a'i ddiwygio ar y gofrestr. Nid yw'n ofynnol i'r hysbysiadau misol o addasiadau gael eu cyhoeddi yn ystod y cyfnod canfasio blynyddol.

2.5 Mae gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddyletswydd hefyd i gyhoeddi hysbysiad o addasiad ar gyfer unrhyw ardal lle y cyhoeddwyd hysbysiad etholiad, gan ymgorffori'r newidiadau sy'n deillio o geisiadau a dderbyniwyd hyd at 11 diwrnod cyn yr etholiad. Fel arfer, gelwir hyn yn 'rheol 11 diwrnod' a dim ond mewn perthynas â'r rhan(nau) o'r ardal gofrestru lle y bwriedir cynnal yr etholiad y mae'n gymwys. Mae etholiadau hefyd yn gofyn am gyhoeddi hysbysiad o addasiad, sy'n cywiro unrhyw wallau clercol a nodir ac yn gweithredu unrhyw benderfyniadau llys (apeliadau cofrestru) a dderbyniwyd hyd at 9pm ar y diwrnod pleidleisio.

2.6 Gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol hefyd ddiwygio'r gofrestr ar unrhyw adeg rhwng cyfnodau canfasio blynyddol os bydd angen. Gellid tybio y byddai hyn yn angenrheidiol yn dilyn adolygiad o ffiniau llywodraeth leol neu er mwyn

[5] Adran 13(1), DCyB 1983.
[6] Rheoliad 43, RhCyB 2001.

cynnal adolygiad o ddosbarthiadau a mannau pleidleisio a wneir gan yr awdurdod lleol. Rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyhoeddi hysbysiad o'u bwriad i gyhoeddi cofrestr ddiwygiedig,[7] a ystyrir yn fanylach yn Rhan Ch, 'Addasiadau misol i'r gofrestr'.

2.7 Nid yw fformat y gofrestr yn rhagnodedig ond rhaid iddi gynnwys enw, cyfeiriad a rhif etholwr pob etholwr cymwys sydd wedi cofrestru naill ai drwy'r ffurflen cofrestru cartref yn ystod y cyfnod canfasio blynyddol neu ar ffurflen gofrestru dreigl ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.

2.8 Rhaid rhannu'r gofrestr yn ddosbarthiadau pleidleisio a dylid rhoi set unigryw o lythrennau i bob un.[8] Rhaid rhoi rhif i bob etholwr ac i'r graddau y bo'n ymarferol resymol dylid dyrannu'r rhifau hyn fel bod y rhifau mewn trefn ddilyniannol ym mhob rhan o'r gofrestr.[9] Gelwir llythrennau'r dosbarth pleidleisio a'r rhif gyda'i gilydd yn rhif etholwr. Dylid trefnu'r cofnodion yn y gofrestr sy'n dangos pob etholwr arferol yn ôl trefn stryd a dim ond lle nad yw'n rhesymol ymarferol eu rhestru yn ôl trefn stryd y gellir eu rhoi yn nhrefn yr wyddor yn ôl enw neu gymysgedd o'r ddau.[10]

2.9 Yn dilyn yr etholwyr arferol mewn unrhyw ddosbarth pleidleisio bydd adran 'etholwyr eraill', a fydd yn cynnwys unrhyw etholwyr categori arbennig nad ydynt wedi'u rhestru yng nghorff y gofrestr, wedi'u rhestru yn ôl cyfenw yn nhrefn yr wyddor, ac fe'i dilynir gan unrhyw etholwyr sydd wedi cofrestru'n ddienw.

2.10 Mae Tabl 1 yn dangos rhywfaint o'r fformatio ar gyfer cofrestr a cheir esboniad ohono yn y golofn ar yr ochr dde.

Tabl 1: Cofrestr etholiadol sampl

Rhif etholwr	Marc etholfraint	Enw	Cyfeiriad	Disgrifiad (ni nodir ar y gofrestr)
1		Bishop, Laura	1, The Street	Etholwr arferol; gall bleidleisio ymhob etholiad
2	12/6/bbbb	Juba, Charlotte	2, The Street	Atendriad; gall bleidleisio os yw'r etholiad ar y dyddiad a nodir neu ar ôl hynny
3	G	Myers, Martin	2, The Street	Etholwr llywodraeth leol yn unig
4	K	Mackenzie, Scott	3, The Street	Etholwr llywodraeth leol a Senedd Ewrop yn unig
5	L	Evans, Gwyneth	4, The Street	Ni all bleidleisio yn etholiad Senedd y DU

[7] Adran 13(3), DCyB 1983.
[8] Rheoliadau 38 a 39, RhCyB 2001.
[9] Adran 9(3) a (4), DCyB 1983.
[10] Rheoliad 41, RhCyB 2001.

Tabl 1 (parhad): Cofrestr etholiadol sampl

Rhif etholwr	Marc etholfraint	Enw	Cyfeiriad	Disgrifiad (ni nodir ar y gofrestr)
Etholwyr eraill				
6	F	Jolly, Simon		Etholwr tramor; ni all bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol
7		Watts, Julie		Etholwr gwasanaeth; gall bleidleisio ymhob etholiad
8	N			Etholwr dienw; gall bleidleisio ymhob etholiad
9		N		Etholwr dienw; gall bleidleisio ymhob etholiad (yr un effaith â chofnod 8 uchod ond opsiwn amgen)
10	GN			Etholwr dienw sy'n ddinesydd yn un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd; gall bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yn unig
11	G	N		Etholwr dienw sy'n ddinesydd yn un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd; gall bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yn unig (yr un effaith â chofnod 10 uchod ond opsiwn amgen)

Y gofrestr etholwyr wedi'i golygu[11]

2.11 Mae hwn yn fersiwn o'r gofrestr sydd ar gael i'w werthu a gellir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben, e.e. gweithgareddau masnachol fel marchnata. Gall etholwyr ddewis peidio ag ymddangos ar y fersiwn wedi'i olygu o'r gofrestr,

[11] Rheoliad 93, RhCyB 2001.

ac mae'r ffurflen ganfasio a'r ffurflen gais ar gyfer cofrestru treigl yn cynnwys blwch ticio at y diben hwnnw.

2.12 Rhaid cyhoeddi'r gofrestr etholwyr wedi'i golygu pryd bynnag y caiff y gofrestr lawn ei diwygio ond nid oes darpariaeth i Swyddogion Cofrestru Etholiadol lunio cofrestr wedi'i golygu a'i diweddaru yn fisol.[12] O ganlyniad, er y gall y rhai sy'n gwneud cais i gael eu cofrestru o dan y broses gofrestru dreigl ddewis eithrio, yn ymarferol ni wneir unrhyw ddiwygiad i'r gofrestr wedi'i golygu, dim ond i'r gofrestr lawn. Fodd bynnag, dylid cynnwys y marc 'Z' wrth ymyl enw pob etholwr o'r fath ar unrhyw hysbysiad o addasiad a werthir.[13]

2.13 Rhaid i'r gofrestr wedi'i golygu ddilyn yr un fformat â'r gofrestr lawn a rhaid iddi gynnwys yr holl wybodaeth sy'n ymwneud ag etholwr ag a fyddai'n ymddangos ar y fersiwn llawn o'r gofrestr, megis y manylion dynodi fel y nodir uchod.

[12] Rheoliad 93(7), RhCyB 2001.
[13] Rheoliad 111(7), RhCyB 2001; Rheoliad 110(7), RhCyB (yr Alban) 2001.

3 Archwiliad

Y gofrestr lawn o etholwyr

3.1 Rhaid sicrhau bod y gofrestr lawn ar gael i'r cyhoedd ei gweld, o dan oruchwyliaeth, yn swyddfa'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ac mewn mannau eraill o'r fath, os o gwbl, yn eu hardal gofrestru a fydd yn caniatáu i'r cyhoedd fanteisio ar gyfleusterau rhesymol at y diben hwnnw.[14]

3.2 Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gyfrifol am lefel a natur y broses o oruchwylio'r cofrestrau sydd o dan eu rheolaeth. Nid yw'r rheoliadau yn rhagnodol o ran y dull goruchwylio er mwyn rhoi hyblygrwydd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn eu darpariaeth. Fodd bynnag, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol fodloni eu hunain bod pobl sy'n archwilio'r gofrestr lawn yn cael eu goruchwylio mewn modd sy'n atal rhywun rhag gwneud copïau o'r gofrestr gyfan neu rannau ohoni heb awdurdod neu ei dwyn. Gall fod yn briodol rhoi hyfforddiant neu nodiadau canllaw i'r staff hynny a fydd yn goruchwylio'r gofrestr.

3.3 Nod y broses oruchwylio yw atal pobl rhag gwneud copïau o'r cofrestrau ar raddfa fawr neu unrhyw ymgais arall i wyrdroi'r rheolau.[15] Mae'n drosedd gwneud copïau o'r gofrestr lawn, ar wahân i nodiadau ysgrifenedig.[16] Mae'n drosedd defnyddio unrhyw nodiadau ysgrifenedig at ddibenion marchnata.[17]

3.4 Mae'r rhan fwyaf o gofrestrau ar gael i'w harchwilio ar ffurf papur, ond efallai y gall pobl weld y gofrestr hefyd drwy ddefnyddio copi electronig ohoni. Dylid sicrhau yr ymdrinnir â goblygiadau diogelwch darparu'r gofrestr i'w harchwilio'n electronig, yn enwedig o ran atal rhywun rhag lawrlwytho, trosglwyddo'n electronig neu argraffu'r wybodaeth hon neu ei chopïo drwy unrhyw ddull arall. Dylai unrhyw gyfleuster chwilio fod yn ôl cyfeiriad yn unig ac nid yn ôl enw, gan fod hyn wedi'i wahardd yn benodol.[18]

3.5 Lle y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn ddigon hyderus y gall staff llyfrgell neu staff cyngor arall gynnig lefel briodol o oruchwyliaeth, gellir sicrhau bod mwy o gopïau ar gael. Os bydd etholwyr yn gyfarwydd ag archwilio'r gofrestr mewn man penodol ac yn parhau i ofyn am hynny, efallai y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol am ymateb i'r galw hwnnw, ar yr amod y gellir bodloni'r gofyniad goruchwyliaeth. Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fod yn fodlon y gall llyfrgell yr awdurdod lleol y byddant yn darparu copi iddi yn gallu darparu'r oruchwyliaeth sydd ei hangen. Gellir gwneud hyn, er enghraifft, drwy anfon copi o'r ddeddfwriaeth a chael llythyr neu e-bost wedi'i lofnodi gan reolwr y llyfrgell yn datgan y bydd yn dilyn y gofynion. Efallai y bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd yn ychwanegu nodyn cyfarwyddyd i ategu'r gofrestr ar gyfer staff y llyfrgell. Er mai'r llyfrgellydd, a/neu'r goruchwylydd priodol a

[14] Rheoliad 43, RhCyB 2001.
[15] Rheoliad 96, RhCyB 2001; Rheoliad 95, RhCyB (yr Alban) 2001.
[16] Rheoliad 7(4), RhCyB 2001.
[17] Rheoliad 96(2A)(b)(i), RhCyB 2001; Rheoliad 95(3)(b)(i), RhCyB (yr Alban) 2001. Diffinnir dibenion marchnata gan Adran 11(3) o Ddeddf Diogelu Data 1998.
[18] Rheoliad 43(1A), RhCyB 2001.

fyddai'n gyfrifol am unrhyw fethiant i gymhwyso'r ddeddfwriaeth, efallai y bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol am gymryd cyngor cyfreithiol os yw'n amau nad ydynt wedi cymryd y camau angenrheidiol i osgoi achos o dorri'r rheoliadau.

3.6 Ni ddylid rhoi copi o'r gofrestr lawn i unrhyw leoliad nad yw wedi gallu bodloni'r gofyniad archwilio, ac ni fyddai'n briodol ychwaith i ddarparu'r gofrestr wedi'i golygu i'r cyfryw leoliadau oherwydd gallai hyn ddrysu etholwyr sy'n sylwi, wrth archwilio'r gofrestr, nad ydynt wedi'u rhestru lle y maent wedi dewis peidio â datgelu eu manylion ar y gofrestr wedi'i golygu. Gall llyfrgelloedd ac unedau archif wneud cais am gopi o'r gofrestr lawn[19] ac os felly y mae byddant yn cymryd cyfrifoldeb llawn am gydymffurfio â'r rheolau o ran archwilio o dan oruchwyliaeth.

Y gofrestr etholwyr wedi'i golygu

3.7 Nid oes cyfyngiadau ar bwy all weld y gofrestr wedi'i golygu. Nid oes angen goruchwyliaeth felly gall y cyhoedd archwilio'r gofrestr mewn unrhyw leoliad y gwêl y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn dda.

Archwilio cofrestrau wedi'u marcio a rhestrau pleidleiswyr absennol wedi'u marcio

3.8 Copi o'r gofrestr a ddefnyddir mewn gorsafoedd pleidleisio a gaiff ei marcio pan fydd etholwyr yn pleidleisio yw'r gofrestr wedi'i marcio. Y rhestrau pleidleiswyr absennol wedi'u marcio yw'r dogfennau cyfatebol ar gyfer y rhai sydd wedi pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy.

Nid yw'r adran hon o'r canllaw yn berthnasol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn yr Alban, am nad oes ganddynt gyfrifoldeb am gopïau wedi'u marcio o'r gofrestr etholwyr neu restrau pleidleiswyr absennol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Canlyniadau, Swyddog Priodol y cyngor neu Glerc y Siryf yw'r broses o weinyddu cofrestrau wedi'u marcio a rhestrau pleidleiswyr wedi'i marcio yn yr Alban, yn dibynnu ar y math o etholiad.

3.9 Gall unrhyw un archwilio'r gofrestr wedi'i marcio a rhestrau pleidleiswyr absennol wedi'u marcio,[20] gan gynnwys y rhai sydd â hawl i brynu copi. Fel y gofrestr etholiadol lawn, mae hawl gan bobl archwilio cofrestrau a rhestrau am ddim. Rhaid i unrhyw un sydd am eu harchwilio wneud cais yn ysgrifenedig a rhaid iddo:[21]

- nodi pa gofrestr neu ddogfen y mae am ei harchwilio
- datgan a yw am archwilio copi wedi'i argraffu neu gopi data (lle y bo'n briodol)
- datgan pam na fyddai archwilio'r gofrestr lawn neu restrau heb eu marcio yn ddigon i gyflawni'r diben

[19] Rheoliad 109A, RhCyB 2001; Rheoliad 108A, RhCyB (yr Alban) 2001.
[20] Rheoliad 118(1), RhCyB 2001.
[21] Rheoliad 118(2), RhCyB 2001.

- datgan pwy fydd yn archwilio'r dogfennau, a
- datgan ar ba ddyddiad yr hoffai archwilio'r dogfennau

3.10 Rhaid sicrhau bod y dogfennau ar gael o fewn 10 diwrnod i dderbyn y cais.[22] Rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol drefnu eu bod ar gael i'w harchwilio o dan oruchwyliaeth ac am gyfnod rhesymol o amser.

3.11 Gall y bobl sy'n archwilio'r dogfennau wneud copïau o'r cofrestrau a'r rhestrau gan ddefnyddio nodiadau ysgrifenedig yn unig.[23] Ni chaniateir defnyddio gliniaduron i deipio gwybodaeth, offer recordio, sganwyr, ac ati. Byddai gwneud nodyn o bob cofnod gyda thalfyriadau yn dderbyniol, ynghyd â dod â chopi papur presennol o gofrestr neu restr a'i farcio.

Mae Adran 8, 'Adnoddau', isod, yn cynnwys tablau sy'n nodi pwy all archwilio'r cofrestrau a'r rhestrau wedi'u marcio ar ôl etholiad.

3.12 Gall unrhyw heddlu neu asiantaeth arall a restrir o dan Reoliad 109 fynd â chopi o'r dogfennau a archwilir, am ddim.[24]

[22] Rheoliad 118(3), RhCyB 2001.
[23] Rheoliad 118(7), RhCyB 2001.
[24] Rheoliad 118(8), RhCyB 2001.

4 Darparu a gwerthu'r gofrestr lawn, wedi'i golygu a'i marcio

4.1 Dim ond y rhai sydd wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth all weld y gofrestr etholiadol lawn.

4.2 Mae gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol ddyletswydd i ddarparu copïau am ddim o'r gofrestr etholwyr i sefydliadau ac unigolion amrywiol, ac mae deddfwriaeth yn gosod cyfyngiadau ar sut y gwneir hyn.[25] Mewn rhai achosion, mae'n rhaid darparu cofrestrau pan gânt eu cyhoeddi ac mewn achosion eraill dim ond ar gais y cyhoeddir y gofrestr.

4.3 Oni nodir fel arall, bydd unrhyw ddyletswydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ddarparu data ond yn gosod dyletswydd i ddarparu data ar y ffurf y'i cedwir ganddynt.

Diogelwch data a gaiff ei gludo

4.4 O ganlyniad i natur y wybodaeth a geir ar y gofrestr, dylid bod yn ofalus iawn wrth anfon y data hwn at unrhyw un o'r derbynyddion cymwys.

4.5 Er y dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol geisio eu cyngor eu hunain o ran y ffordd fwyaf priodol a diogel o ddarparu'r gofrestr i dderbynyddion, awgrymwyd y canlynol:

- efallai y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol am arbed copïau electronig, a anfonir naill ai drwy e-bost neu eu harbed ar ddisg, ar fformat a ddiogelir gan gyfrinair neu wedi'i amgryptio gyda'r cyfrinair perthnasol neu'r allwedd amgryptio yn cael eu hanfon mewn gohebiaeth ar wahân.
- efallai y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol am ystyried amrywiaeth o opsiynau darparu diogel gwahanol a ddarperir gan y Post Brenhinol a gwasanaethau dosbarthu eraill.

4.6 Os yw Swyddogion Cofrestru Etholiadol am ddefnyddio unrhyw fath o amgryptio, dylent sicrhau y gall unrhyw dderbynnydd gael gafael ar y data'n briodol.

Darparu'r gofrestr am ddim ar ôl ei chyhoeddi

4.7 Ar ôl cyhoeddi'r gofrestr erbyn 1 Rhagfyr bob blwyddyn yn dilyn y canfasiad blynyddol, mae gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddyletswydd i ddarparu copïau llawn o'r gofrestr etholiadol am ddim i'r canlynol:

[25] Rheoliadau 94 i 109A, RhCyB 2001; Rheoliadau 94 i 108A, RhCyB (Yr Alban) 2001.

- y Llyfrgell Brydeinig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol yr Alban
- Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Canlyniadau Dros Dro ar gyfer unrhyw etholiad yn eu hardal
- y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- y Comisiwn Etholiadol
- Comisiwn Ffiniau Lloegr

- y Llyfrgell Brydeinig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol yr Alban
- Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Canlyniadau Dros Dro ar gyfer unrhyw etholiad yn eu hardal
- y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- y Comisiwn Etholiadol
- Comisiwn Ffiniau Cymru
- Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru

- y Llyfrgell Brydeinig a Llyfrgell Genedlaethol yr Alban
- Swyddogion Canlyniadau ar gyfer unrhyw etholiad yn eu hardal
- Swyddfa Cofrestrydd Cyffredinol yr Alban
- y Comisiwn Etholiadol
- Comisiwn Ffiniau yr Alban
- Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol yr Alban

4.8 Darperir y dogfennau yn awtomatig i'r sefydliadau hyn pan gânt eu cyhoeddi: nid oes angen iddynt wneud cais.

4.9 Ceir tabl sy'n crynhoi'r rheoliad penodol ynglŷn â darparu'r gofrestr, ar ba fformat y dylid darparu'r gofrestr a, lle y bo'n bosibl, y manylion ynglŷn â lle y dylid darparu'r copi yn Adran 8, 'Adnoddau', isod. Gall y sefydliadau perthnasol roi cyngor ar ba fformat yr hoffent gael y gofrestr, er mai dim ond yn y fformat y maent yn ei chadw y mae'n ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ddarparu'r gofrestr.

4.10 Mae tabl pellach yn Adran 8, 'Adnoddau', isod, yn nodi i ba lyfrgelloedd cenedlaethol y mae'n ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddarparu copïau ac ar ba fformat y dylid darparu'r copïau hyn, fel y pennir gan leoliad awdurdod y Swyddog Cofrestru Etholiadol.[26]

Darparu'r gofrestr am ddim ar gais

4.11 Dim ond ar gais y mae hawl gan y sefydliadau a'r unigolion hynny y nodir yn y tabl yn Adran 8, 'Adnoddau' isod nad ydynt yn cael y gofrestr yn awtomatig, i weld y gofrestr.

[26] Rheoliadau 97, 97A a 97B, RhCyB 2001; Rheoliad 96, RhCyB (yr Alban) 2001.

4.12 Rhaid gwneud ceisiadau o'r fath yn ysgrifenedig a rhaid iddynt:[27]

- nodi'r ddogfen sy'n ofynnol
- nodi a wneir y cais ar gyfer dogfennau presennol yn unig neu a yw'n cynnwys cais i ddarparu unrhyw ddogfennau dilynol, fel hysbysiadau o addasiadau
- nodi a ydynt am gael copi argraffedig o unrhyw un o'r dogfennau yn hytrach na'r fersiwn ar ffurf data

4.13 Os na wneir cais am gopi argraffedig, dylid darparu'r gofrestr ar ffurf data.[28]

4.14 Bydd unrhyw lyfrgell neu wasanaeth archif awdurdod lleol bellach yn cael copi o'r gofrestr ar ffurf data ar gais (oni fyddant yn nodi eu bod am gael copi papur).[29] Dim ond o dan oruchwyliaeth y gallant ganiatáu i rywun archwilio'r gofrestr ac ni ellir caniatáu cyfleuster chwilio yn ôl enw os archwilir cofrestr ar ffurf data.[30] Nid oes gofyniad iddynt ganiatáu archwiliad os ydynt o'r farn na allant fodloni'r gofynion.

4.15 Ar ôl derbyn y cais, bydd unrhyw awdurdod lleol arall lle mae'r ardal yn cynnwys y cwbl neu ran o gyfrifoldeb y Swyddog Cofrestru Etholiadol, megis y cyngor sir neu Awdurdod Llundain Fwyaf, yn derbyn y rhan perthnasol o'r gofrestr.[31] Gall cynghorau plwyf a chynghorau cymunedol yn Lloegr a Chymru yn eu tro dderbyn copi o'r gofrestr, ond nid cyfarfod plwyf. [32]

4.16 Yng Nghymru a Lloegr, gellir defnyddio'r gofrestr a ddarperir i awdurdod lleol ar gyfer unrhyw etholiad o dan Adran 116 (etholiadau lleol) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.[33]

Yn yr Alban, gellir defnyddio'r gofrestr lawn hefyd ar gyfer refferendwm lleol a gynhelir gan y Swyddog Canlyniadau.[34]

4.17 Gall yr heddlu, y Gwasanaeth Diogelwch, Pencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth a'r Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Cyfrinachol, ar gais, gael copi am ddim o'r gofrestr.[35]

4.18 Gall rhywun sy'n gymwys i gael y gofrestr fel ymgeisydd mewn etholiad wneud cais am y gofrestr lawn a'r diweddariadau i'r gofrestr ar gyfer yr ardal lle y mae'n ymladd, yn cynnwys hysbysiad o addasiad a gyhoeddwyd ar y pumed diwrnod cyn yr etholiad. Dim ond tra ei fod yn ymgeisydd y mae'r hawl hon yn

[27] Rheoliad 102(2), RhCyB 2001; Rheoliad 101(2), RhCyB (yr Alban) 2001.
[28] Rheoliad 102(3), RhCyB 2001; Rheoliad 101(3), RhCyB (yr Alban) 2001.
[29] Rheoliad 109A, RhCyB 2001; Rheoliad 108A, RhCyB (yr Alban) 2001.
[30] Rheoliad 43(1A)(a), RhCyB 2001.
[31] Rheoliad 107, RPR 2001.
[32] Rheoliad 107(6),(7) a (8), RPR 2001.
[33] Rheoliad 107(4)(aa), RhCyB 2001.
[34] Rheoliad 106(3) a (3A), RhCyB (yr Alban) 2001.
[35] Rheoliad 109, RhCyB 2001; Rheoliad 108, RhCyB (yr Alban) 2001.

gymwys; unwaith y bydd yr etholiad wedi dod i ben ni all gael cofrestrau na diweddariadau dilynol.[36]

4.19 Mae hawl gan sefydliadau etholaeth leol sy'n cynnwys pleidiau gwleidyddol cofrestredig gael copi o'r gofrestr lawn ar gais.[37] Dylid cyfeirio unrhyw gwestiwn o ran pwy yw'r derbynnydd cywir ar gyfer unrhyw gofrestr o'r fath at Swyddog Enwebu'r blaid wleidyddol.

Deddf Rheithgorau 1974

4.20 Yng Nghymru a Lloegr, rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddarparu copi llawn o'r gofrestr etholwyr yn nodi'r bobl hynny sydd dros 70 ac felly nad ydynt yn gymwys i wneud gwasanaeth rheithgor.[38] Y cyfeiriad lle y dylid anfon copi o'r gofrestr yw:

The Court Service
Jury Central Summoning Bureau
Pocock Street
London SE1 0DU

Nid yw'r darpariaethau hyn yn berthnasol yn yr Alban. Fodd bynnag, mae hawl gan Wasanaeth Llysoedd yr Alban brynu copi o'r gofrestr lawn o etholwyr o dan Reoliad 112 o RhCyB (yr Alban) 2001 er na nodir etholwyr dros 70.

4.21 Ni ddylid defnyddio'r fersiwn o'r gofrestr sy'n cynnwys manylion dynodi sy'n dangos y rhai dros 70 at unrhyw ddiben arall ar wahân i wysio rheithwyr. Ni ddylid darparu'r fersiynau hyn o'r cofrestrau i'w harchwilio gan unrhyw unigolyn na sefydliad arall at unrhyw ddiben.

Cyrff eraill sy'n gwneud cais am y gofrestr

4.22 Dim ond corff neu sefydliad sydd â deddfiad sy'n caniatáu iddo weld y gofrestr etholiadol all gael y gofrestr os nad ydyw wedi'i restru'n uniongyrchol mewn deddfwriaeth etholiadol. Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ystyried y deddfiad a ddyfynnir gan unrhyw ymgeisydd ac os yw'n fodlon bod y deddfiad yn rhoi'r pŵer i'r unigolyn hwnnw gael y gofrestr, dylid ei darparu.

Gwerthu'r gofrestr lawn

4.23 Dim ond i rai sefydliadau y gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol werthu copïau o'r gofrestr lawn,[39] sef:

[36] Rheoliad 102(5), RhCyB 2001; Rheoliad 101(5), RhCyB (yr Alban) 2001; Paragraffau 2 a 4, Atodlen 1, Gorchymyn Senedd yr Alban; Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007.
[37] Rheoliad 105, RhCyB 2001; Rheoliad 104, RhCyB (yr Alban) 2001.
[38] Adran 3, Deddf Rheithgorau 1974; Rheoliad 95, RhCyB 2001.
[39] Rheoliadau 113 a 114, RhCyB 2001; Rheoliadau 112 a 113, RhCyB (Yr Alban) 2001.

- Adrannau'r Llywodraeth (gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru a Lloegr, Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yn yr Alban, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ac unrhyw gorff sy'n fetio unrhyw un er mwyn sicrhau diogelwch cenedlaethol).
- Asiantaethau gwirio credyd. Rhaid i asiantaethau gwirio credyd gael eu cofrestru o dan Adran 147 o Ddeddf Gwirio Credyd 1974 a rhaid iddynt hefyd fod yn parhau i ddarparu gwasanaethau gwirio credyd (h.y. rhoi gwybodaeth sy'n berthnasol i sefyllfa ariannol unigolion). Rhoddir rhagor o wybodaeth am asiantaethau gwirio credyd isod.

Manylion dynodi 'Z'

4.24 Rhaid rhoi'r llythyren 'Z' wrth ymyl enw unrhyw unigolyn **na** chaiff ei enw ei gynnwys yn y fersiwn wedi'i olygu o'r gofrestr ar bob copi o'r gofrestr lawn a werthir i adrannau'r llywodraeth neu asiantaethau gwirio credyd.[40]

4.25 Yn ogystal, dylid rhoi 'Z' wrth ymyl enw unrhyw etholwr sydd wedi dewis peidio â datgelu ei fanylion ar y gofrestr wedi'i golygu ar yr hysbysiadau o addasiadau a ddarperir i asiantaethau gwirio credyd ac adrannau'r llywodraeth.

4.26 Gan na ellir newid y gofrestr wedi'i golygu heblaw am yr adeg y cyhoeddir fersiwn diwygiedig o'r gofrestr, ni all etholwyr, yn ymarferol, gael eu dileu o'r gofrestr wedi'i golygu unwaith y bydd wedi cael ei chyhoeddi. Os bydd etholwr am ddangos ei fwriad i gael ei ddileu o'r gofrestr wedi'i golygu pan gaiff y gofrestr ei diwygio nesaf gall nodi'r bwriad hwnnw ar ffurflen wedi'i llofnodi neu ffurflen gais i gofrestru. Dylid prosesu'r ffurflen hon wedyn a'i nodi fel diwygiad ar yr hysbysiad nesaf o addasiadau, gan nodi'r llythyren 'Z' pan gaiff ei werthu.

Ffioedd ar gyfer gwerthu'r gofrestr lawn

4.27 Mae'r ffioedd ar gyfer gwerthu'r gofrestr lawn a'r hysbysiadau o addasiadau fel a ganlyn:[41]

- ar ffurf data, £20 yn ogystal â £1.50 ar gyfer pob 1,000 o gofnodion (neu'r rhan sy'n weddill o 1,000 o gofnodion) sydd ynddi
- ar ffurf argraffedig, £10 yn ogystal â £5 ar gyfer pob 1,000 o gofnodion (neu'r rhan sy'n weddill o 1,000 o gofnodion) sydd ynddi

4.28 Mae'r ffioedd ar gyfer gwerthu'r rhestr o etholwyr tramor fel a ganlyn:[42]

- ar ffurf data, £20 yn ogystal â £1.50 ar gyfer pob 100 o gofnodion (neu'r rhan sy'n weddill o 100 o gofnodion) sydd ynddi
- ar ffurf argraffedig, £10 yn ogystal â £5 ar gyfer pob 100 o gofnodion (neu'r rhan sy'n weddill o 100 o gofnodion) sydd ynddi

4.29 Mae'n werth cael y ffi cyn dosbarthu'r gofrestr.

[40] Rheoliad 111(7), RhCyB 2001; Rheoliad 110(7), RhCyB (yr Alban) 2001.
[41] Rheoliad 111(5), RhCyB 2001; Rheoliad 110(5), RhCyB (yr Alban) 2001.
[42] Rheoliad 111(6), RhCyB 2001; Rheoliad 110(6), RhCyB (yr Alban) 2001.

Gwerthu'r gofrestr wedi'i golygu

4.30 Gellir gwerthu'r gofrestr wedi'i golygu i unrhyw un sy'n gofyn amdani ar ôl talu'r ffi ragnodedig. Mae'n werth cael y ffi cyn dosbarthu'r gofrestr.

4.31 Mae'r ffioedd ar gyfer gwerthu'r gofrestr wedi'i golygu fel a ganlyn:[43]

- ar ffurf data, £20 yn ogystal â £1.50 ar gyfer pob 1,000 o gofnodion (neu'r rhan sy'n weddill o 1,000 o gofnodion) sydd ynddi
- ar ffurf argraffedig, £10 yn ogystal â £5 ar gyfer pob 1,000 o gofnodion (neu'r rhan sy'n weddill o 1,000 o gofnodion) sydd ynddi

Cyfyngiadau ar y defnydd o'r gofrestr lawn

4.32 Dim ond er mwyn cyflawni swyddogaeth statudol y cyngor neu unrhyw awdurdod lleol arall sy'n ymwneud â diogelwch, gorfodi'r gyfraith ac atal troseddau y gall cynghorydd neu gyflogai'r cyngor sydd â chofrestr ddarparu copi o'r gofrestr neu ddatgelu neu ddefnyddio gwybodaeth a geir ynddi nad yw wedi'i chynnwys yn y gofrestr wedi'i golygu.[44]

Yn yr Alban nid yw'r geiriau 'awdurdod lleol arall' yn y paragraff uchod yn berthnasol.

4.33 Mae adrannau'r Llywodraeth yn gyfyngedig o ran y ffordd y gallant ddefnyddio'r gofrestr. Ni allant ddarparu na gwerthu copi oni allai'r derbynnydd gael copi am ddim o dan y rheoliadau.

4.34 Dim ond am y rhesymau canlynol y gall adrannau'r Llywodraeth ddefnyddio'r gofrestr:[45]

- yng Nghymru a Lloegr, i atal a chanfod troseddau a gorfodi'r gyfraith droseddol (boed yng Nghymru neu Loegr neu yn rhywle arall)
- yn yr Alban, i weinyddu cyfiawnder, atal a chanfod troseddau a gorfodi'r gyfraith droseddol (boed yn yr Alban neu yn rhywle arall)
- i fetio cyflogeion a'r sawl sy'n gwneud cais am gyflogaeth lle y mae'r cyfryw fetio yn ofynnol yn unol ag unrhyw ddeddfiad
- i fetio unrhyw un lle mae'r cyfryw fetio ar gyfer sicrhau diogelwch cenedlaethol, neu
- i ddarparu a datgelu fel y diffinnir gan y rheoliadau

4.35 Dim ond am y rhesymau canlynol y gall asiantaethau gwirio credyd ddefnyddio'r cofrestrau:[46]

[43] Rheoliad 110(2), RhCyB 2001; Rheoliad 109(2), RhCyB (yr Alban) 2001.
[44] Rheoliad 107(4), RhCyB 2001; Rheoliad 106(3), RhCyB (yr Alban) 2001.
[45] Rheoliad 113(2), RhCyB 2001; Rheoliad 112(2), RhCyB (yr Alban) 2001.
[46] Rheoliad 114(3), RhCyB 2001; Rheoliad 113(3), RhCyB (yr Alban) 2001.

- i fetio ceisiadau am gredyd neu geisiadau a all arwain at roi credyd neu roi unrhyw warant, indemniad neu sicrwydd mewn perthynas â rhoi credyd
- i fodloni unrhyw rwymedigaethau a geir yn Rheoliadau Gwyngalchu Arian 1993, Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2001 neu unrhyw reolau a wneir yn unol ag adran 146 o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000, ac
- i gynnal dadansoddiad ystadegol o asesiad risg credyd mewn achos lle na chyfeirir at unrhyw un y mae ei fanylion wedi'u cynnwys yn y gofrestr lawn yn ôl enw neu ensyniad angenrheidiol

4.36 Rhaid i asiantaeth gwirio credyd gael ei chofrestru o dan Ran III o Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1974 (drwy rinwedd Adran 147 o'r Ddeddf honno) **a** rhaid ei bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau gwirio credyd.[47] Mae'r cwmni yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y rheoliadau a'i fod yn gymwys i wneud cais i brynu copi o'r gofrestr lawn o etholwyr.

4.37 Er mwyn bod yn fodlon bod hawl gan y cwmni i gael copi o'r gofrestr, efallai y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol am ofyn i'r cwmni sydd am brynu'r gofrestr ddarparu copi o'r drwydded credyd defnyddwyr a roddwyd iddo. Mae hyn yn dangos bod y cwmni yn bodloni rhan gyntaf y meini prawf.

4.38 Mae'r Swyddfa Masnachu Teg yn gyfrifol am drwyddedu asiantaethau gwirio credyd ledled y DU o dan y Ddeddf Credyd Defnyddwyr a gall gadarnhau a yw cwmni wedi'i drwyddedu felly. Manylion cyswllt y Swyddfa Masnachu Teg yw:

Office of Fair Trading
Consumer Credit Licensing Bureau
Craven House
40 Uxbridge Road
Ealing
London W5 2BS

Ffôn: 020 7211 8608
Ffacs: 020 7211 8661
Gwefan: www.oft.gov.uk

4.39 Mae tâl bach am gopïau o drwyddedau gan y Swyddfa Masnachu Teg ond gellir darparu manylion am drwyddedau gan y Swyddfa Masnachu Teg am ddim dros y ffôn neu'r ffacs.

4.40 Fodd bynnag, ni all y Swyddfa Masnachu Teg roi gwybod a yw cwmni yn parhau i ddarparu gwasanaethau gwirio credyd yn y DU ac, at hynny, ymddengys nad oes ffynhonnell annibynnol ac awdurdodol o gadarnhau hyn. Os mai felly y mae, yr unig ffordd y gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol ganfod a yw cwmni yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth yw drwy gysylltu â'r cwmni'n uniongyrchol a gofyn am gadarnhad ysgrifenedig.

[47] Rheoliad 114(1), RhCyB 2001; Rheoliad 113(1), RhCyB (yr Alban) 2001.

4.41 Awgrymir bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig gan y cwmni, wedi'i lofnodi gan rywun awdurdodedig yn y cwmni hwnnw (fel cyfarwyddwr y cwmni), sy'n datgan y canlynol:

- eu bod yn gwbl ymwybodol o ofynion y rheoliad perthnasol
- eu bod yn asiantaeth gwirio credyd drwyddedig, **ac**
- eu bod yn 'parhau i ddarparu gwasanaethau gwirio credyd' yn unol â'r diffiniad a'r dibenion a roddir yn y rheoliad

4.42 Dylai'r cadarnhad ysgrifenedig hefyd gynnwys rhif cofrestru'r cwmni a manylion cyswllt perthnasol ar gyfer y cwmni.

4.43 Efallai y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol am ofyn i'r cwmni ddarparu cadarnhad o'r wybodaeth uchod bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn parhau i fod yn gyfredol.

Y gofrestr wedi'i marcio

Nid yw'r adran hon o'r canllawiau yn berthnasol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn yr Alban.

Er bod darpariaethau tebyg ar gyfer pwy all weld y gofrestr wedi'i marcio yn berthnasol mewn etholiadau yn yr Alban, heblaw am etholiadau Senedd yr Alban, Swyddog Priodol y cyngor neu Glerc y Siryf sy'n gyfrifol am weinyddu materion o'r fath, yn dibynnu ar yr etholiad dan sylw, nid y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

4.44 Yng Nghymru a Lloegr, rhaid sicrhau bod y copi wedi'i farcio o'r cofrestrau etholwyr a'r copïau wedi'u marcio o'r rhestrau pleidleiswyr post a phleidleiswyr drwy ddirprwy, os gwneir cais amdanynt, ar gael a rhaid eu darparu i ymgeiswyr ac asiantau ar ôl etholiad ar ôl talu ffi ragnodedig.[48]

4.45 Ymhlith y bobl eraill a all brynu copïau mae'r rhai y mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn fodlon:[49]

- bod angen iddynt weld y marciau ar y gofrestr neu'r rhestrau wedi'u marcio er mwyn cyflawni'r diben y gofynnwyd amdanynt, **ac**
- eu bod yn gymwys o dan Reoliadau 100, 103, 105, 106, 108, 109 neu 113 i gael y gofrestr lawn

4.46 Nid yw pobl a oedd yn gymwys o dan Reoliadau 103, 105, 106 neu 108 yn colli'r cymhwyster unwaith y bydd yr etholiad drosodd, cyhyd â'u bod yn gymwys yn ystod yr etholiad y maent yn gofyn am weld dogfennau mewn perthynas â hi.[50]

[48] Rheoliad 117, RhCyB 2001.
[49] Rheoliad 117(1) a (4)(a), RhCyB 2001.
[50] Rheoliad 117(2), RhCyB 2001.

4.47 Dim ond at ddibenion etholiadol neu ymchwil y gall pobl sydd â hawl i weld y gofrestr neu'r rhestrau wedi'u marcio ddefnyddio'r wybodaeth, o fewn ystyr Adran 33 o Ddeddf Diogelu Data 1998. Byddai hyn yn golygu, er enghraifft, ei bod yn gyfreithlon i ymgeiswyr, asiantau a phleidiau lleol wybod pwy bleidleisiodd a phwy na bleidleisiodd mewn unrhyw etholiad er mwyn ymchwilio i'r etholiad presennol ac i gynllunio ar gyfer etholiadau yn y dyfodol. Rhaid cadw pleidlais unrhyw etholwr yn gyfrinachol ond mae'r ffaith bod unrhyw un wedi pleidleisio neu beidio wedi'i datgan ar goedd (gyda rhai cyfyngiadau) unwaith y bydd yr etholiad drosodd. Efallai y bydd Swyddog Cofrestru Etholiadol am atgoffa rhywun sydd â hawl i weld dogfennau o'r cyfyngiadau hyn.

4.48 Ceir gofyniad i ddarparu dogfennau ar y ffurf y'u cedwir yn unig, ac felly os mai dim ond ar fformat papur y bydd cofrestr wedi'i marcio, nid oes angen llunio copi data i'w ddarparu. Yn yr un modd, os mai dim ond ar fformat data y cedwir rhestr pleidleiswyr post, nid oes angen iddo gael ei lunio ar fformat copi papur.

Mae Adran 8, 'Adnoddau', isod, yn cynnwys tabl sy'n nodi pwy all brynu copïau o'r cofrestrau a'r rhestrau wedi'u marcio ar ôl etholiad.

4.49 Mae cost dogfen wedi'i marcio bellach yn rhagnodedig ac yn seiliedig ar yr hyn a ddefnyddir ar gyfer gwerthu'r gofrestr lawn.[51] Y gost ar gyfer copïau data yw £20 yn ogystal â £1.50 fesul 1,000 o gofnodion neu ran ohonynt, ac ar gyfer copïau wedi'u hargraffu y gost yw £10 yn ogystal â £5 fesul 1,000 o gofnodion neu ran ohonynt. Er nad yw'r diffiniadau o gopïau data a chopïau argraffedig wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth, mae'n rhesymol dehongli 'copi argraffedig' fel copi caled o ddogfen. Mae PDF neu fersiwn electronig tebyg o ddogfen, hyd yn oed pe gellid argraffu'r ddogfen honno wedyn i greu copi argraffedig, yn fersiwn data a dylid codi'r tâl priodol amdano. Dim ond yn y fformat y mae'n eu cadw y mae hawl gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol ddarparu dogfennau: nid yw'n ofynnol iddo brosesu'r ddogfen er mwyn newid y fformat hwnnw, er y gallai wneud hynny.[52]

Mae'r darpariaethau uchod o ran pwy all weld cofrestrau a rhestrau wedi'u marcio yn berthnasol i etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Rheoliad 121 o RhCyB 2001.

Cofnodi gwerthiannau o'r gofrestr

4.50 Mae'r Comisiwn Etholiadol yn argymell bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cofnodi trafodion gwerthiannau o ran y gofrestr lawn a'r gofrestr wedi'i golygu. Caiff yr incwm o werthiannau o'r fath ei brosesu'n aml drwy'r awdurdod lleol ac felly, dylai'r refeniw a enillwyd, ynghyd a nifer y cofestri a werthwyd, fod ar gael are gyfer archwiliad cyhoeddus a chael eu cyhoeddi os oes angen. O ran pob cais am ddata, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ystyried bod y wybodaeth honno nad yw'n bersonol sensitif ac na fyddai'n

[51] Rheoliad 120, RhCyB 2001.
[52] Rheoliad 116(4), RhCyB 2001.

effeithio ar allu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i gyflawni ei ddyletswydd yn cael ei rhyddhau i'r cyhoedd. O ganlyniad, dylid ystyried bod nifer y cofrestrau a werthir a'r refeniw a enillir yn wybodaeth y gellir ei rhyddhau os bydd angen.

4.51 Ym mhob achos sy'n ymwneud â cheisiadau am ddata, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ystyried pa mor addas ydyw i ryddhau data personol, gan gadw darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998 mewn cof. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi argymell hyn.[53]

'Dylai sefydliadau gyhoeddi a diweddaru rhestr o'r sefydliadau hynny maen nhw'n rhannu, cyfnewid, neu'n dymuno gwerthu gwybodaeth bersonol iddynt, gan gynnwys 'trydydd partïon dewisedig'.

Darperir manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Section 2 of Part E 'Improving Completeness and Accuracy'

4.52 Mae'r ddeddfwriaeth yn dangos yn glir pa unigolion a sefydliadau sy'n gallu derbyn copïau o'r gofrestr lawn, ond gan fod unrhyw un yn gallu prynu copïau o'r gofrestr a gafodd ei golygu, os gwneir cais am restr o'r rhai hynny sydd wedi'i phrynu, efallai y bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol eisiau cyhoeddi'r wybodaeth yn unol ag argymhelliad y Comisiynydd Gwybodaeth.

52a p57 Richard Thomas a Mark Walport, Adroddiad Adolygu Rhannu Data (Gorffennaf 2008). Gellir llawrlwytho'r adroddiad yn....

5 Hen gopïau o'r gofrestr

5.1 Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gadw copïau hen o'r gofrestr am 15 mlynedd i ganiatáu i geisiadau gan bleidleiswyr o dramor i gael eu gwirio.

5.2 Fodd bynnag, ni ddylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ganiatáu mynediad at unrhyw gofrestr etholiadol heblaw am y gofrestr ddiwygiedig gyfredol ac unrhyw hysbysiadau am addasiadau iddi.

5.3 Gall unrhyw lyfrgelloedd awdurdod lleol, y Llyfrgell Brydeinig a Llyfrgelloedd Cenedlaethol Cymru a'r Alban sy'n cadw copïau o'r gofrestr lawn ddarparu copïau o gofrestrau sy'n fwy na 10 mlwydd oed (o'r dyddiad y'u cyhoeddwyd gyntaf) at ddibenion ymchwil o dan amgylchiadau penodol. Dim ond yn y fformat y'i cedwir y gellir darparu'r gofrestr, a dim ond at ddibenion ymchwil y gellir ei darparu, a ddiffinnir fel a ganlyn:[54]

> 'dibenion ystadegol neu hanesyddol [sy'n bodloni'r] "amodau perthnasol", mewn perthynas ag unrhyw achos o brosesu data personol, [sef]:
>
> (a) ni chaiff y data ei brosesu i ategu mesurau neu benderfyniadau mewn perthynas ag unigolion penodol, a
>
> (b) ni chaiff y data ei brosesu yn y fath fodd sy'n achosi, neu sy'n debygol o achosi, niwed sylweddol neu ofid sylweddol i unrhyw wrthrych data.'

5.4 Dim ond i'r gofrestr gyfredol a chofrestrau a gedwir gan lyfrgelloedd ac unedau archif sydd dros 10 mlwydd oed y mae deddfwriaeth ar yr hawl i weld y gofrestr yn berthnasol. Nid oes dyletswydd i ganiatáu i bobl weld cofrestrau nad ydynt yn gyfredol.

5.5 Gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol, llyfrgelloedd ac unedau archif, fodd bynnag, ganiatáu i bobl weld cofrestrau nad ydynt yn gyfredol os dymunant. Yn yr achos hwn, dylid rhoi'r un hawl i weld y cofrestrau hyn yn yr un modd a chyda'r un cyfyngiadau â'r hawl i weld y gofrestr lawn gyfredol.

[54] Adran 33(1), Deddf Diogelu Data 1998; Rheoliad 92(2), RhCyB 2001.

6 Cofnodion a rhestrau pleidleisio absennol

Darparu cofnodion a rhestrau o bleidleisiau absennol i ymgeiswyr, asiantau etholiadol, pleidiau gwleidyddol cofrestredig a chynrychiolwyr etholedig

6.1 Gall cynrychiolwyr etholedig, ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol cofrestredig a phleidiau etholaethol lleol ofyn i'r Swyddog Cofrestru Etholaethol ddarparu, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud y cais ac am ddim, gopi o'r canlynol:[55]

- y fersiwn cyfredol o'r cofnod pleidleisio absennol a fyddai, os byddai etholiad penodol yn cael ei alw, yn rhan o'r rhestrau pleidleiswyr absennol i'w defnyddio yn yr etholiad hwnnw, ac
- y fersiwn cyfredol neu'r fersiwn terfynol o'r rhestrau pleidleiswyr absennol ar gyfer etholiad penodol

6.2 At ddibenion y rheoliadau, yng Nghymru a Lloegr, mae'r copi 'cyfredol' o'r cofnodion neu'r rhestrau yn gopi am 9am ar y dyddiad y'i darperir.[56] Yn yr Alban, 'copi cyfredol' o'r cofnodion neu'r rhestrau yw copi ar ddechrau'r dydd y'i darperir, heblaw am etholiadau llywodraeth leol lle y mae'n gopi am 9am y dyddiad y'i darperir.[57]

At ddibenion darparu'r cofnodion a'r rhestrau pleidleisio absennol mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r diffiniadau amrywiol o 'ymgeisydd' mewn etholiadau gwahanol.[58]

Y diwrnod cynharaf y gall rhywun ddod yn ymgeisydd yn etholiad Senedd y DU yw'r diwrnod y caiff Senedd y DU ei diddymu neu, yn achos isetholiad, y diwrnod y cyfyd y swydd wag. Fel arall, daw rhywun yn ymgeisydd pan fydd wedi'i ddatgan ei hun neu wedi'i ddatgan gan eraill i fod yn ymgeisydd neu ar y diwrnod y caiff ei enwebu fel ymgeisydd, pa un bynnag sydd gynharaf.

Daw rhywun yn ymgeisydd mewn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru neu Loegr ar y dyddiad olaf y gellir cyhoeddi'r hysbysiad etholiad os bydd wedi'i ddatgan ei hun neu wedi'i ddatgan gan eraill i fod yn ymgeisydd cyn y dyddiad hwnnw. Fel arall, daw rhywun yn ymgeisydd pan fydd wedi'i ddatgan ei hun neu wedi'i ddatgan gan eraill i fod yn ymgeisydd neu ar y diwrnod y caiff ei enwebu fel ymgeisydd, pa un bynnag sydd gynharaf. Mae ymgeisydd mewn etholiad

[55] Rheoliad 61, RhCyB 2001; Paragraff 13, Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Rheoliad 16, Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[56] Rheoliad 61(16), RhCyB 2001; Paragraff 13(17), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007.
[57] Rheoliad 61(16), RhCyB (yr Alban) 2001; Rheoliad 16(14)(a), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[58] Adrannau 118 a 118A, DCyB 1983; Rheoliad 31(2), Rheoliadau Etholiadau Seneddol Ewrop 2004; Erthygl 81, Gorchymyn Senedd yr Alban; Erthygl 84, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007.

llywodraeth leol yn yr Alban yn rhywun sydd wedi cael ei enwebu neu wedi'i ddatgan ei hun yn ymgeisydd i gael ei ethol i'r sedd i'w llenwi yn yr etholiad.

Yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu etholiad Senedd yr Alban, daw rhywun yn ymgeisydd ar y diwrnod y caiff y Cynulliad neu'r Senedd (pa un bynnag) eu diddymu neu'r diwrnod y cyfyd sedd wag a fydd yn achosi isetholiad etholaeth os yw wedi'i ddatgan ei hun neu wedi'i ddatgan gan eraill i fod yn ymgeisydd yn barod. Fel arall, daw rhywun yn ymgeisydd pan fydd wedi'i ddatgan ei hun neu wedi'i ddatgan gan eraill i fod yn ymgeisydd neu ar y diwrnod y caiff ei enwebu fel ymgeisydd, pa un bynnag sydd gynharaf.

At ddibenion etholiad Senedd Ewrop, daw rhywun sydd wedi'i gynnwys ar restr ymgeiswyr plaid gofrestredig yn ymgeisydd ar y diwrnod y cyflwynir y rhestr gan y blaid. Daw rhywun sy'n sefyll fel unigolyn yn yr etholiad yn ymgeisydd ar y dyddiad olaf y gellir cyhoeddi'r hysbysiad etholiad os bydd wedi'i ddatgan ei hun neu wedi'i ddatgan gan eraill i fod yn ymgeisydd cyn y dyddiad hwnnw. Fel arall, daw rhywun yn ymgeisydd pan fydd wedi'i ddatgan ei hun neu wedi'i ddatgan gan eraill i fod yn ymgeisydd neu ar y diwrnod y caiff ei enwebu fel ymgeisydd, pa un bynnag sydd gynharaf.

6.3 Rhaid gwneud unrhyw gais o'r fath yn ysgrifenedig a rhaid iddo nodi pa gofnodion neu restrau sy'n ofynnol, p'un a yw'r cais yn ymwneud â'r rhestrau cyfredol a/neu derfynol, a ph'un a ddylid rhoi'r wybodaeth ar ffurf data neu bapur.[59]

6.4 Nid yw'r cofnodion a'r rhestrau yn cynnwys y manylion adnabod personol a ddarperir gan bleidleiswyr absennol, a gynhwysir mewn cofnod ar wahân (y cofnod manylion adnabod personol) ac ni ddylid cynnwys manylion adnabod personol yn y copïau o gofnodion a rhestrau a ddarperir.

6.5 Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar y nifer o weithiau y gall unigolyn cymwys wneud cais am gopïau o'r dogfennau. Dylid ymdrin â phob cais ar wahân.

6.6 Lle y gwneir cais am ddarparu copi terfynol o'r rhestr o bleidleiswyr post, rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol roi'r wybodaeth cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau am bleidlais bost am 5pm ar yr 11 diwrnod gwaith cyn dyddiad yr etholiad.[60] Yn yr un modd, rhaid darparu'r rhestr derfynol o ddirprwyon cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y chweched diwrnod gwaith cyn yr etholiad,[61] a rhaid ei diweddaru wedi hynny i ystyried unrhyw newidiadau sy'n digwydd o ganlyniad i unrhyw geisiadau brys drwy ddirprwy a ganiateir ar ôl y dyddiad cau hwnnw.[62]

[59] Rheoliad 61(2), RhCyB 2001; Paragraff 13(3), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Rheoliad 16(3), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[60] Rheoliad 61(5), RhCyB 2001; Paragraff 13(6), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Rheoliad 16(7), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[61] Rheoliad 61(6), RhCyB 2001; Paragraff 13(7), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Rheoliad 16(8), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[62] Rheoliad 61(7), RhCyB 2001; Paragraff 13(8), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Rheoliad 16(9), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

6.7 Pan roddir copi o'r cofnodion pleidleisio absennol cyfredol a/neu'r rhestrau terfynol i gynrychiolwyr etholedig, ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol cofrestredig a phleidiau etholaethol lleol, dim ond at ddibenion ymchwil neu etholiadol y gellir defnyddio'r wybodaeth ac at unrhyw ddibenion sy'n gydnaws â'r cyfyngiadau sy'n gymwys i ddefnydd y derbynnydd hwnnw o'r gofrestr lawn o etholwyr.[63]

6.8 Gall unrhyw un sydd wedi cael copi o'r cofnodion neu'r rhestrau neu sydd â hawl i gael copi roi copi o'r wybodaeth i brosesydd at ddibenion prosesu'r wybodaeth neu gaffael gwybodaeth a brosesir gan brosesydd ac a rhoddir iddo, sef gwybodaeth y mae'r prosesydd wedi'i chael o dan y rheoliadau i'w defnyddio at y dibenion y mae ganddo hawl i gael y wybodaeth.[64] Nid yw'r ddarpariaeth hon yn gymwys i etholiadau llywodraeth leol yr Alban.

Mae'r rheolau ynglŷn â darparu rhestrau pleidleisio absennol yn etholiadau Senedd yr Alban yn wahanol i etholiadau eraill.[65]

Cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl cyhoeddi'r rhestrau pleidleisio absennol i'w defnyddio yn yr etholiad, rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, ar gais, ddarparu copi ohonynt am ddim i bob ymgeisydd etholaethol neu ei asiant etholiad, i bob unigolyn sy'n sefyll i gael ei ethol fel aelod rhanbarthol neu ei asiant etholiad, a Swyddog Enwebu pob plaid wleidyddol gofrestredig sydd wedi'i henwebu i sefyll yn yr etholiad rhanbarthol.

Fodd bynnag, os gwneir cais am gopi o'r rhestrau cyn cyhoeddi papurau pleidleisio drwy'r post, dim ond copïau o'r rhan sy'n ymwneud â'r mater hwnnw fydd y rhestrau a ddarperir.

Archwilio cofnodion a rhestrau pleidleisio absennol

6.9 Mae'n ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol sicrhau bod y fersiwn cyfredol o'r cofnod pleidleisio absennol a, phan fydd wedi'i gyhoeddi, y fersiwn terfynol o'r rhestrau pleidleiswyr absennol ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio yn ei swyddfa.[66] Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 5pm ar y chweched diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio, rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol sicrhau bod copi o'r rhestr derfynol o bleidleiswyr absennol ar gael i'r cyhoedd ei archwilio (rhestr o bleidleiswyr post, rhestr o ddirprwyon a rhestr o ddirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post), a rhaid ei ddiweddaru i ystyried unrhyw geisiadau brys am ddirprwy a ganiateir.

6.10 Er mwyn i rywun archwilio'r cofnod neu'r rhestr, rhai iddo wneud cais yn ysgrifenedig yn gyntaf, yn nodi:[67]

[63] Rheoliadau 61(3) a 61A, RhCyB 2001; Paragraffau 13(4) a 14, Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Rheoliadau 16(5) a 18, Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[64] Rheoliad 61(8) a (9), RhCyB 2001; Paragraff 13(9) a (10), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007.
[65] Paragraff 12, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban.
[66] Rheoliad 61(6) a (10), RhCyB 2001; Paragraff 13(7) a (11), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Rheoliad 16(2) a (8), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[67] Rheoliad 61(11), RhCyB 2001; Paragraff 13(12), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Rheoliad 16(3) a (4), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).

- pa gofnodion neu restrau sy'n ofynnol (neu rannau perthnasol o'r wybodaeth)
- a yw'r cais yn ymwneud â'r rhestrau cyfredol a/neu derfynol
- pwy fydd yn archwilio'r wybodaeth
- y dyddiad yr hoffai gynnal yr archwiliad
- a fyddai'n well ganddo archwilio'r wybodaeth ar ffurf argraffedig neu ddata

6.11 Rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol sicrhau bod copi o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar i'w **harchwilio o dan oruchwyliaeth** cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl dyddiad derbyn y cais a wnaed yn briodol.[70] Ni all unrhyw un sy'n archwilio copi o'r wybodaeth wneud copïau o unrhyw ran benodol ohoni neu gofnodi unrhyw fanylion ynddi ar wahân i wneud nodiadau â llaw.[71] Os sicrheir bod y wybodaeth ar gael ar fformat electronig, ni ddylai ganiatáu i'r sawl sy'n ei harchwilio allu chwilio drwy gyfeirio at enw unrhyw un, ac ni ddylai ganiatáu i unrhyw un sy'n ei harchwilio wneud copi o unrhyw ran ohoni neu drosglwyddo unrhyw ran ohoni yn electronig neu drwy unrhyw ffordd arall.[72]

6.12 Awgrymir y dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ysgrifennu at y rhai sy'n gwneud cais i archwilio cofnodion neu restrau pleidleisio absennol i'w hysbysu o'r holl gyfyngiadau sy'n berthnasol wrth archwilio'r cofnodion neu'r rhestrau hyn. Dylai'r llythyr hefyd gynnwys nodyn atgoffa mai dim ond at ddibenion ymchwil o fewn ystyr Adran 33 o Ddeddf Diogelu Data 1998 ac at ddibenion etholiadol y dylid defnyddio'r wybodaeth a gynhwysir yn y dogfennau hynny.[73] Gweler Adran 5, 'Hen gopïau o'r gofrestr', uchod, i gael diffiniad o 'ddibenion ymchwil'.

6.13 Lle nad y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r Swyddog Canlyniadau (Dros Dro) ar gyfer yr holl ardal gofrestru neu ran ohoni, rhaid anfon copi o'r rhestrau i'r Swyddog Canlyniadau (Dros Dro) cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y 6eddiwrnod cyn y diwrnod pleidleisio.[74]

[70] Rheoliad 61(12), RhCyB 2001; Paragraff 13(13), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 17(3), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 16(10), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[71] Rheoliad 61(14), RhCyB 2001; Paragraff 13(15), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 17(5), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 16(12), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[72] Rheoliad 61(13), RhCyB 2001; Paragraff 13(14), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 17(4), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Rheoliad 16(11), Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[73] Rheoliad 61A, RhCyB 2001; Paragraff 14, Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007; Paragraff 19, Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban, Rheoliad 18, Rheoliadau CyB (PA) (yr Alban).
[74] Rheoliad 61(6)(b), RhCyB2001; Paragraff 16(7)(b), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban

7 Diogelu data

Deddf Diogelu Data 1998

7.1 Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn rhoi hawl i unigolion wybod pa wybodaeth a gedwir amdanynt ac mae'n darparu fframwaith i sicrhau y caiff gwybodaeth bersonol ei thrin yn briodol ac yn unol ag egwyddorion diogelu data. I Swyddogion Cofrestru Etholiadol mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y broses o gasglu, trin a darparu data yn cydymffurfio â deddfwriaeth etholiadol.

Darparu ceisiadau cofrestru a phleidlais absennol

7.2 Mae ceisiadau i gofrestru, ar wahân i geisiadau cofrestru dienw, ar gael i'w harchwilio o'r diwrnod y rhestrir y cais ar y rhestr o geisiadau am bum diwrnod gwaith. Ar ôl yr adeg honno, ni ellir archwilio unrhyw gais. Ni ellir archwilio ceisiadau am bleidleisiau absennol ar unrhyw adeg.

7.3 Gall yr awdurdod lleol sy'n penodi ofyn am gopïau o ffurflenni canfasio a ffurflenni cais cofrestru mewn perthynas ag ymchwiliadau i achosion o dwyll. Er nad oes hawl na dyletswydd i'r cyfryw unedau weld y dogfennau gwreiddiol, efallai y bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn darparu'r ddogfen os teimla ei bod yn briodol gwneud hynny ac os bydd yn fodlon bod gwneud hynny yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998.[75]

7.4 Lle nad yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn ystyried ei bod yn briodol darparu unrhyw ddogfen, byddai angen i'r uned sy'n ymchwilio gael gorchymyn llys i ddarparu'r ddogfen, ac os felly byddai'n ofynnol wedyn i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ddarparu'r ddogfen honno.

Materion yn ymwneud â data cofrestru

7.5 Dylid cyfeirio pob mater sy'n ymwneud â'r agweddau diogelu data ar ddefnyddio data cofrestru at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Yng Nghymru:
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
2nd Floor
Churchill House
Churchill Way
Caerdydd CF10 2HH
Ffôn: 029 2067 8400
Ffacs: 029 2067 8399
E-bost: wales@ico.gsi.gov.uk

[75] Cyngor Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, 21 Awst 2002.

Yn Lloegr:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Ffacs: 01625 524 510
E-bost: casework@ico.gsi.gov.uk

Yn yr Alban:
The Information Commissioner's
Office – Scotland
45 Melville Street
Edinburgh EH3 7HL
Ffôn: 0131 244 9001
E-bost: scotland@ico.gsi.gov.uk

8 Adnoddau

Tabl 2: Sefydliadau ac unigolion sydd â hawl i gael copi llawn o'r gofrestr etholwyr o dan RhCyB 2001 (fel y'i diwygiwyd)

Noder: Mae'r tabl hwn yn nodi pwy sydd â hawl i gael pa gopïau o'r gofrestr o dan RhCyB 2001 a, lle y bo'n bosibl, i ble y dylid darparu'r copïau hyn. Nid yw'r tabl yn ystyried at ba ddibenion y gellir defnyddio'r gofrestr unwaith y'i darperir.

Rheoliad	Sefydliad/unigolyn	Manylion cyswllt	Darparu'r gofrestr
97 (C a Ll) 96 (yr Alban)	Y Llyfrgell Brydeinig	Gweler Tabl 4 isod	Gweler Tabl 3 isod
97A (C a Ll)	Llyfrgell Genedlaethol Cymru	Gweler Tabl 4 isod	Gweler Tabl 3 isod
97B (C a Ll) 96 (yr Alban)	Llyfrgell Genedlaethol yr Alban	Gweler Tabl 4 isod	Gweler Tabl 3 isod
98 (C a Ll) 97 (yr Alban)	a. Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiad llywodraeth leol (yn cynnwys yng Nghymru a Lloegr etholiad ar gyfer cynghorwyr plwyf a chymuned; ac yn Llundain ethol Aelodau o Gynulliad Llundain a Maer Llundain) b. Swyddog Canlyniadau (Dros dro) ar gyfer etholiad Seneddol, os nad yr unigolyn hwnnw yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol	Penderfynir yn lleol fel y bo'n gymwys	a. Pan gaiff ei chyhoeddi, copi data o'r gofrestr ddiwygiedig (oni wneir cais am gopi argraffedig cyn cyhoeddi) ac unrhyw hysbysiad yn nodi addasiad i'r gofrestr b. Cymaint o gopïau argraffedig ag sydd eu hangen yn rhesymol ar gyfer yr etholiad, gyda'r ddyletswydd i ddarparu o leiaf un copi data o'r gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad yn nodi addasiad i'r gofrestr a'r rhestr ddiweddaraf o etholwyr tramor; dylid darparu'r copi cyn gynted ag y gwneir cyhoeddiad o fwriad Ei Mawrhydi i ddiddymu'r Senedd neu y cyfyd sedd wag yn yr etholaeth berthnasol

Tabl 2 (parhad): Sefydliadau ac unigolion sydd â hawl i gael copi llawn o'r gofrestr etholwyr o dan RhCyB 2001

Rheoliad	Sefydliad/unigolyn	Manylion cyswllt	Darparu'r gofrestr
	c. Swyddog Canlyniadau Lleol ar gyfer etholiad Senedd Ewrop, os nad yr unigolyn hwnnw yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ch. Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a Rhanbarthol mewn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru os nad hwy yw'r Swyddog Canlyniadau Ym mhob un o'r achosion hyn, rhaid i'r ardal etholiadol fod o fewn yr ardal gofrestru yn rhannol neu'n gyfan gwbl.		c. Cymaint o gopïau argraffedig ag sydd eu hangen yn rhesymol ar gyfer yr etholiad, gyda'r ddyletswydd i ddarparu o leiaf un copi data o'r gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad yn nodi addasiad i'r gofrestr a'r rhestr ddiweddaraf o etholwyr tramor; copi i'w ddarparu ddeufis cyn y diwrnod pleidleisio ch. Cymaint o gopïau argraffedig ag sydd eu hangen yn rhesymol ar gyfer yr etholiad, gyda'r ddyletswydd i ddarparu o leiaf un copi data o'r gofrestr ddiwygiedig ac unrhyw hysbysiad yn nodi addasiad i'r gofrestr
97A (yr Alban)	Swyddog Canlyniadau ar gyfer ethol aelodau i awdurdod Parc Cenedlaethol	Penderfynir yn lleol fel y bo'n gymwys	Ar gais, un copi data a chymaint o gopïau argraffedig ag sydd eu hangen o'r gofrestr ddiwygiedig ac unrhyw hysbysiadau o addasiadau i'r gofrestr honno
99 (C a Ll) 98 (yr Alban)	Swyddfa Ystadegau Gwladol	Trevor Knapman Office for National Statistics Room 4100SSegensworth Road Titchfield Fareham Hants, PO15 5RR	Pan gaiff ei chyhoeddi, copi data (oni wneir cais am gopi argraffedig cyn cyhoeddi) o'r gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad yn nodi addasiad i'r gofrestr ac unrhyw restr o etholwyr tramor

Tabl 2 (parhad): Sefydliadau ac unigolion sydd â hawl i gael copi llawn o'r gofrestr etholwyr o dan RhCyB 2001

Rheoliad	Sefydliad/unigolyn	Manylion cyswllt	Darparu'r gofrestr
98 (yr Alban)	Swyddfa Cofrestrydd Cyffredinol yr Alban	General Register Office for Scotland Ladywell House Ladywell Road Edinburgh EH12 7TF	Pan gaiff ei chyhoeddi, copi data (oni wneir cais am gopi argraffedig cyn cyhoeddi) o'r gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad yn nodi addasiadau i'r gofrestr ac unrhyw restr o etholwyr tramor
100 (C a Ll) 99 (yr Alban)	Y Comisiwn Etholiadol	Y Comisiwn Etholiadol 3 Bunhill Row Llundain EC1Y 8YZ E-bost: eregisters@electoralcommission.org.uk	Pan gaiff ei chyhoeddi, copi data (oni wneir cais am gopi argraffedig cyn cyhoeddi) o'r gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad yn nodi addasiad i'r gofrestr ac unrhyw restr o etholwyr tramor
101 (C a Ll) 100 (yr Alban)	Comisiwn Ffiniau Seneddol ar gyfer Cymru, Lloegr neu'r Alban (fel y bo'n briodol i ardal y Swyddog Cofrestru Etholiadol)	Pennir gan ardal y Swyddog Cofrestru Etholiadol fel y bo'n gymwys	Pan gaiff ei chyhoeddi, copi data (oni wneir cais am gopi papur cyn cyhoeddi) o'r gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad o addasiad a'r rhestr o etholwyr tramor i'r Comisiwn Ffiniau priodol
101 (C a Ll) 100 (yr Alban)	Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru a Chomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol yr Alban (fel y bo'n briodol i ardal y Swyddog Cofrestru Etholiadol)	Pennir gan ardal y Swyddog Cofrestru Etholiadol fel y bo'n gymwys	Pan gaiff ei chyhoeddi, copi data (oni wneir cais am gopi papur cyn cyhoeddi) o'r gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad o addasiad a'r rhestr o etholwyr tramor i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol priodol

Tabl 2 (parhad): Sefydliadau ac unigolion sydd â hawl i gael copi llawn o'r gofrestr etholwyr o dan RhCyB 2001

Rheoliad	Sefydliad/unigolyn	Manylion cyswllt	Darparu'r gofrestr
103 (C a Ll) 102 (yr Alban)	Cynrychiolwyr etholedig (yn cynnwys ASau, ASEau, cynghorwyr lleol, Maer Llundain, aelodau Llundain o Gynulliad Llundain, aelodau etholaethol o Gynulliad Llundain, meiri etholedig) o fewn yr ardal gofrestru	Yn ôl cyngor y cynrychiolydd etholedig	Ar gais, fel y nodir yn y Rheoliad
104 (C a Ll) 103 (yr Alban)	a. Deiliaid swyddi etholedig perthnasol o fewn ystyr Paragraff 1(8), Atodlen 7, DPGER b. Ymgeiswyr mewn etholiad Seneddol, llywodraeth leol neu etholiad Awdurdod Llundain Fwyaf	Yn ôl cyngor deiliaid swydd etholedig berthnasol neu ymgeisydd fel y bo'n briodol	Ar gais, copi data (oni wneir cais am gopi papur cyn cyhoeddi) o'r gofrestr ddigwygiedig, unrhyw hysbysiad o addasiad a'r rhestr o etholwyr tramor
105 (C a Ll) 104 (yr Alban)	Pleidiau etholaethol lleol	Yn ôl cyngor y sawl a gaiff ei enwebu i weithredu gan Swyddog Enwebu cofrestredig y blaid	Ar gais, copi data (oni wneir cais am gopi papur cyn cyhoeddi) o'r gofrestr ddigwygiedig, unrhyw hysbysiad o addasiad a'r rhestr o etholwyr tramor sy'n ymwneud â'r etholaeth sy'n rhan o'r ardal gofrestru

Tabl 2 (parhad): Sefydliadau ac unigolion sydd â hawl i gael copi llawn o'r gofrestr etholwyr o dan RhCyB 2001

Rheoliad	Sefydliad/unigolyn	Manylion cyswllt	Darparu'r gofrestr
106 (C a Ll) 105 (yr Alban)	Pleidiau gwleidyddol cofrestredig: a. plaid wleidyddol gofrestredig ar wahân i blaid fach o fewn ystyr Adran 160(1) o DPGER b. trydydd parti cydnabyddedig o fewn ystyr Adran 85(5) o DPGER, ar wahân i blaid wleidyddol gofrestredig c. cyfranogwr a ganiateir o fewn ystyr Adran 105(1) o DPGER, ar wahân i blaid wleidyddol gofrestredig	Yn ôl cyngor y blaid neu'r cyfranogwr a ganiateir	Ar gais, copi data (oni wneir cais am gopi papur cyn cyhoeddi) o'r gofrestr ddigwygiedig, unrhyw hysbysiad o addasiad a'r rhestr o etholwyr tramor
107 (C a Ll) 106 (yr Alban)	Y cyngor a benododd y Swyddog Cofrestru Etholiadol	Yn ôl cyngor y cyngor	Ar gais, copi data (oni wneir cais am gopi papur cyn cyhoeddi) o'r gofrestr ddigwygiedig, unrhyw hysbysiad o addasiad a'r rhestr o etholwyr tramor sy'n ymwneud ag ardal y cyngor
107 (C a Ll)	Unrhyw awdurdod lleol arall y mae ei ardal yn cynnwys cyfrifoldeb y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gyfan gwbl neu'n rhannol fel cynghorau bwrdeistref sirol, ond **nid** cynghorau plwyf a chymuned	Yn ôl cyngor yr awdurdod lleol	Ar gais, copi data (oni wneir cais am gopi papur cyn cyhoeddi) o'r gofrestr ddigwygiedig, unrhyw hysbysiad o addasiad a'r rhestr o etholwyr tramor sy'n ymwneud ag ardal yr awdurdod lleol dan sylw

Tabl 2 (parhad): Sefydliadau ac unigolion sydd â hawl i gael copi llawn o'r gofrestr etholwyr o dan RhCyB 2001

Rheoliad	Sefydliad/unigolyn	Manylion cyswllt	Darparu'r gofrestr
107 (C a Ll) 106 (yr Alban)	Cynghorau plwyf a chymuned	Yn ôl cyngor y plwyf neu'r gymuned dan sylw	Ar gais, copi data (oni wneir cais am gopi papur cyn cyhoeddi) o'r gofrestr ddigwygiedig, unrhyw hysbysiad o addasiad a'r rhestr o etholwyr tramor sy'n ymwneud ag ardal yr awdurdod lleol dan sylw
108 (C a Ll) 107 (yr Alban)	Ymgeiswyr unigol yn etholiad Senedd y DU, Senedd Ewrop, Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu etholiadau llywodraeth leol; ymgeiswyr unigol ar gyfer ethol Maer o dan Ran II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Cymru a Lloegr yn unig); ac asiant etholiad plaid wleidyddol gofrestredig sy'n cyflwyno rhestr o ymgeiswyr yn etholiad Senedd Ewrop, Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu ethol aelodau Llundain o Gynulliad Llundain	Yn ôl cyngor yr ymgeisydd neu asiant etholiad	Ar gais, copi data (oni wneir cais am gopi papur cyn cyhoeddi) o'r gofrestr ddigwygiedig, unrhyw hysbysiad o addasiad a'r rhestr o etholwyr tramor sy'n ymwneud â'r ardal lle mae'r ymgeisydd yn sefyll am etholiad

Tabl 2 (parhad): Sefydliadau ac unigolion sydd â hawl i gael copi llawn o'r gofrestr etholwyr o dan RhCyB 2001

Rheoliad	Sefydliad/unigolyn	Manylion cyswllt	Darparu'r gofrestr
109 (C a Ll) 108 (yr Alban)	a. unrhyw heddlu ym Mhrydain Fawr b. Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon a Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (Wrth Gefn) c. Gwasanaeth Cenedlaethol Cudd-Wybodaeth Droseddol ch. Sgwad Troseddau Cenedlaethol d. Sefydliad Technoleg Gwybodaeth yr Heddlu dd. unrhyw gorff o gwnstabliaid a sefydlwyd o dan ddeddfiad e. Gwasanaeth Diogelwch, Pencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth a'r Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Cyfrinachol	Yn ôl cyngor y corff perthnasol	Ar gais, fersiwn diwygiedig o'r gofrestr, unrhyw hysbysiad yn nodi addasiad i'r gofrestr a rhestr o etholwyr tramor
109A (C a Ll) 108A (yr Alban)	Llyfrgell leol neu wasanaeth archif awdurdod lleol lle mae ei gylch gwaith yn cynnwys yr ardal gofrestru	Yn ôl cyngor y llyfrgell neu'r gwasanaeth archif	Ar gais, fel y diffinnir yn y Rheoliadau

Tabl 3: Y gofyniad i ddarparu i lyfrgelloedd cenedlaethol yn dibynnu ar leoliad y Swyddog Cofrestru Etholiadol

Lleoliad y Swyddog Cofrestru Etholiadol	Y Llyfrgell Brydeinig	Llyfrgell Genedlaethol Cymru	Llyfrgell Genedlaethol yr Alban
Lloegr	Pan gaiff ei chyhoeddi, un copi argraffedig ac un copi data o'r gofrestr ddiwygiedig ac un copi argraffedig o'r rhestr o etholwyr tramor; dim hysbysiadau yn nodi addasiadau i'r gofrestr sydd ei hangen	Pan gaiff ei chyhoeddi, un copi data o'r gofrestr ddiwygiedig (oni wneir cais am gopi argraffedig cyn cyhoeddi) ac un copi argraffedig o'r rhestr o etholwyr tramor; dim hysbysiadau yn nodi addasiadau i'r gofrestr sydd ei hangen	Pan gaiff ei chyhoeddi, un copi data o'r gofrestr ddiwygiedig ac un copi argraffedig o'r rhestr o etholwyr tramor; dim hysbysiadau yn nodi addasiadau i'r gofrestr sydd ei hangen
Cymru	Pan gaiff ei chyhoeddi, un copi argraffedig ac un copi data o'r gofrestr ddiwygiedig ac un copi argraffedig o'r rhestr o etholwyr tramor; dim hysbysiadau yn nodi addasiadau i'r gofrestr sydd ei hangen	Pan gaiff ei chyhoeddi, un copi argraffedig ac un copi data o'r gofrestr ddiwygiedig ac un copi argraffedig o'r rhestr o etholwyr tramor; dim hysbysiadau yn nodi addasiadau i'r gofrestr sydd ei hangen	Pan gaiff ei chyhoeddi, un copi data o'r gofrestr ddiwygiedig ac un copi argraffedig o'r rhestr o etholwyr tramor; dim hysbysiadau yn nodi addasiadau i'r gofrestr sydd ei hangen
Yr Alban	Pan gaiff ei chyhoeddi, un copi argraffedig ac un copi data o'r gofrestr ddiwygiedig ac un copi argraffedig o'r rhestr o etholwyr tramor; dim hysbysiadau yn nodi addasiadau i'r gofrestr sydd ei hangen	Dim gofyniad i ddarparu	Pan gaiff ei chyhoeddi, un copi argraffedig ac un copi data o'r gofrestr ddiwygiedig ac un copi argraffedig o'r rhestr o etholwyr tramor; dim hysbysiadau yn nodi addasiadau i'r gofrestr sydd ei hangen

Tabl 4: Fformat ar gyfer anfon data i'r llyfrgelloedd cenedlaethol a chyrff penodol eraill

Corff	Fersiwn ddata	Fersiwn argraffedig	Diweddariadau misol
Y Comisiwn Etholiadol	Fformat CSV. Hefyd CSV ar gyfer dramor	Nid oes angen.	Fformat CSV
Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ar ran y Bwrdd Ystadegau)	Fformat Excel, CSV, drwy e-bost, CD neu ddisg hyblyg	Nid oes angen.	Nid oes angen
Y Llyfrgell Brydeinig	Yn ôl canllawiau'r Llyfrgell Brydeinig http://tinyurl.com/ECEROC	Yn ôl canllawiau'r Llyfrgell Brydeinig	Nid oes angen
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	Testun plaen neu fformat CSV ar ddisg neu CD-romiau wedi'u gyrru drwy'r post. Ni dderbynnir e-byst.	Yn ôl canllawiau'r Llyfrgell Brydeinig	Nid oes angen
Llyfrgell Genedlaethol yr Alban	Unrhyw fformat, drwy e-bost os yn bosib	Yn ôl canllawiau'r Llyfrgell Brydeinig	Nid oes angen

Table 4a: Cyfeiriadau post ac e-bost ar gyfer anfon data i'r llyfrgelloedd cenedlaethol a chyrff penodol eraill

Corff	Cyfeiriad	E-bost
Y Comisiwn Etholiadol	**Trwy'r post** Y Comisiwn Etholiadol 3 Bunhill Row Llundain EC1Y 8YZ **Trwy law yn unig** Swyddfa Gogledd Lloegr Y Comisiwn Etholiadol York Science Park IT Centre Innovation Way Heslington York YO10 5NP Swyddfa Canolbarth Lloegr Y Comisiwn Etholiadol 2 The Oaks Westwood Way Westwood Business Park Coventry CV4 8JB Swyddfa De Orllewin Lloegr Y Comisiwn Etholiadol Regus 1 Emperor Way Exeter Business Park Exeter EX1 3QS	eregisters@electoralcommission.org.uk

	Swyddfa Yr Alban Y Comisiwn Etholiadol Lothian Chambers 59-63 George IV Bridge Edinburgh EH1 1RN Swyddfa Cymru Y Comisiwn Etholiadol Tŷ Caradog 1-6 Plas Sant Andreas Caerdydd CF10 3BE	
Y Swyddfa Ystadegau Gwladol	Trevor Knapman Office for National Statistics Room 4100S Segensworth Road Titchfield Fareham Hants PO15 5RR	siu.electoral.registers@ons.gov.uk
Y Llyfrgell Brydeinig	Electoral Register Receipt, Social Sciences Collections and Research, The British Library, 96 Euston Road, LONDON NW1 2DB	electoraldeposit2012@bl.uk (Mae hyn yn system e-bost diogel. Os gwelwch yn dda defnyddiwch y cyfeiriad isod er mwyn cofrestru i ddefnyddio'r system)
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	Cyhoeddiadau swyddogol Uned Adnau Cyfreithiol Llyfrgell Genedlaethol Cymru Aberystwyth SY23 3BU	Ddim yn berthnasol

Swyddogion Cofrestru Etholiadol Yr Alban i Lyfrgell Genedlaethol yr Alban	Uned Cyfnodolion Llyfrgell Genedlaethol yr Alban 33 Salisbury Place Caeredin EH9 1SL	legal-deposit@nls.uk
Swyddogion Cofrestru Etholiadol Cymru a Lloegr i Lyfrgell Genedlaethol yr Alban	Casgliadau Digidol Llyfrgell Genedlaethol yr Alban 33 Salisbury Place Caeredin EH9 1SL	legal-deposit@nls.uk

Table 4b: Y fformatau a ffafrir gan y llyfrgelloedd cenedlaethol

National Library	**Manylion arbennig a ofynnwyd amdanynt**
Y Llyfrgell Brydeinig	Ar ôl cais gan weinyddwyr am ganllawiau ffafriedig ar gynhyrchu cofrestri, mae'r Llyfrgell Brydeinig wedi cynhyrchu'r canllaw canlynol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol i'w ystyried: http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0020/68420/british-library-guidelines.pdf Mae'r canllaw hwn yn addas ar gyfer pob fersiwn archifol o'r gofrestr. Bydd unrhyw ystyriaethau o'r canllaw gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cynorthwyo i storio'r gofrestr am y tymor hir..
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	Mae cais Llyfrgell Genedlaethol Cymru, fel pob un o'r cyrff derbyngar, wedi'i gynnwys yn y tablau yma . Gellir gweld y cais go iawn drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn: http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/electoral_commission_pdf_file/0011/68474/2009_NLW_guidelines.pdf

Tabl 5: Sefydliadau ac unigolion sydd â hawl i gael copi llawn o'r gofrestr etholwyr o dan Atodlen 1 i Orchymyn Senedd yr Alban

Paragraff	Sefydliad	Manylion cyswllt	Darparu'r gofrestr
1	Swyddogion Canlyniadau ar gyfer etholiad Senedd yr Alban	Yn ôl cyngor y Swyddog Canlyniadau	Cymaint o gopïau argraffedig ag sydd eu hangen yn rhesymol ar gyfer yr etholiad, gyda'r ddyletswydd i ddarparu o leiaf un copi data o'r gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad yn nodi addasiad i'r gofrestr ac unrhyw gofnod o gofnodion dienw; dylid darparu'r copi cyn gynted ag y gwneir cyhoeddiad o fwriad Ei Mawrhydi i ddiddymu'r Senedd neu y cyfyd sedd wag yn yr etholaeth berthnasol
3	Aelodau o Senedd yr Alban (ASAau)	Yn ôl cyngor yr ASA	Ar gais ysgrifenedig, un copi data (oni wneir cais am gopi papur cyn cyhoeddi) o'r gofrestr ddigwygiedig ac unrhyw hysbysiad o addasiad sy'n ymwneud â'r etholaeth neu, ar gyfer aelodau rhanbarthol, ar gyfer yr ardal gofrestru yn gyfan gwbl
4	Ymgeiswyr etholaethol, ymgeiswyr rhanbarthol unigol ac asiant etholiad plaid wleidyddol gofrestredig sy'n cyflwyno rhestr o ymgeiswyr ar gyfer etholiad	Yn ôl cyngor yr ymgeisydd neu asiant etholiad y blaid wleidyddol gofrestredig	Ar gais ysgrifenedig, copi data (oni wneir cais am gopi papur cyn cyhoeddi) o'r gofrestr ddigwygiedig ac unrhyw hysbysiad o addasiad sy'n ymwneud â'r ardal lle mae'r ymgeisydd yn sefyll am etholiad

Tabl 6: Dogfennaeth etholiad a gaiff ei harchwilio gan y cyhoedd

Cyfeiriad cyfreithiol	Pwy all archwilio?	Manylion
Rheoliad 118	Unrhyw un	Gall unrhyw un ofyn am gael archwilio'r canlynol: • y rhan berthnasol o'r gofrestr etholwyr wedi'i marcio • rhestr pleidleiswyr post wedi'i marcio • rhestr o ddirprwyon wedi'i marcio • rhestr dirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post wedi'i marcio • unrhyw ddogfen arall sy'n ymwneud â'r etholiad (ac eithrio'r papurau pleidleisio, rhestrau rhifau cyfatebol wedi'u cwblhau a thystysgrifau cyflogaeth ar ddyletswydd ar y diwrnod pleidleisio) Rhaid i'r cais: • gael ei wneud yn ysgrifenedig • nodi pwy fydd yn archwilio'r dogfennau • nodi ar ba ddyddiad yr hoffai'r unigolyn archwilio'r dogfennau • nodi a fyddai'n well ganddo archwilio'r dogfennau mewn fformat argraffedig neu ddata electronig

Noder: Mae Tablau 6, 7 ac 8 yn dangos pwy sydd â hawl i weld dogfennaeth etholiad ar ôl yr etholiad.[76]

[76] Mae pob cyfeiriad yn Nhablau 6, 7 ac 8 at RhCyB 2001.

Tabl 6 (parhad): Dogfennaeth etholiad a gaiff ei harchwilio gan y cyhoedd

Cyfeiriad cyfreithiol	Pwy all archwilio?	Manylion
Rheoliad 118	Unrhyw un	Yn achos cais i archwilio'r gofrestr neu'r rhestrau wedi'u marcio, dylid nodi at ba ddiben y defnyddir y wybodaeth a pham na fyddai archwilio copi o'r gofrestr lawn neu restr(au) heb ei marcio/heb eu marcio yn ddigon i gyflawni'r diben hwnnw. Lle y bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn penderfynu y gellir cyflawni'r diben y dymuna'r ymgeisydd ddefnyddio'r wybodaeth drwy archwilio copi o'r gofrestr lawn, bydd yn hysbysu'r ymgeisydd o'i benderfyniad ac yn sicrhau bod y gofrestr lawn ar gael i'w harchwilio o dan oruchwyliaeth. Rhaid sicrhau bod y ddogfennaeth berthnasol ar gael i'w harchwilio o fewn 10 diwrnod i dderbyn y cais. • Dim ond nodiadau ysgrifenedig o'r gofrestr etholwyr wedi'i marcio a'r rhestrau pleidleiswyr absennol wedi'u marcio y gellir eu gwneud. • Ni ellir gwneud copïau o unrhyw ddogfennaeth etholiad arall sydd ar gael i'w harchwilio ar unrhyw ffurf. Dim ond at y dibenion canlynol y gellir defnyddio unrhyw wybodaeth a geir drwy archwilio dogfennaeth etholiad: • dibenion ymchwil o fewn ystyr Adran 33 o Ddeddf Diogelu Data 1998 (ymchwil, hanes ac ystadegau) • dibenion etholiadol

Tabl 7: Copïau o'r gofrestr etholwyr wedi'i marcio a rhestrau pleidleiswyr absennol wedi'u marcio

Cyfeiriad cyfreithiol	Gellir eu darparu i	Manylion
Rheoliad 117	• Y Comisiwn Etholiadol (Rheoliad 100) • Cynrychiolwyr etholedig at ddibenion etholiadol (Rheoliad 103) • Pleidiau etholaethol lleol (Rheoliad 105) • Pleidiau gwleidyddol cofrestredig (Rheoliad 106) • Ymgeiswyr (Rheoliad 108) • Heddluoedd ac asiantaethau eraill (Rheoliad 109) • Adrannau'r llywodraeth a chyrff eraill (Rheoliad 113)	Ar gais ac ar ôl talu ffi a gyfrifir drwy gyfeirio at Reoliad 117, mae hawl gan yr unigolion a'r sefydliadau hyn gael copïau o'r canlynol: • rhan berthnasol o'r gofrestr etholwyr wedi'i marcio • rhan berthnasol o'r rhestr pleidleiswyr post wedi'i marcio • rhan berthnasol o'r rhestr dirprwyon wedi'i marcio • rhan berthnasol o'r rhestr dirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post wedi'i marcio Rhaid i'r cais: • gael ei wneud yn ysgrifenedig • nodi pa gofrestr wedi'i marcio neu restr wedi'i marcio (neu ran berthnasol ohonynt) sy'n ofynnol • nodi ai copi argraffedig neu gopi data o'r gofrestr neu'r rhestr(au) wedi'i marcio/wedi'u marcio sy'n ofynnol • nodi at ba ddiben y defnyddir y gofrestr neu'r rhestr(au) wedi'i marcio/wedi'u marcio a pham na fyddai darparu neu brynu copi o'r gofrestr lawn neu restr(au) heb ei marcio/heb eu marcio yn ddigon i gyflawni'r diben hwnnw Os na fydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn fodlon bod angen i'r ymgeisydd weld y marciau ar y gofrestr wedi'i marcio neu'r rhestrau wedi'u marcio at y diben y gofynnir amdanynt, gall drin y cais fel un am wybodaeth mewn rhestrau heb eu marcio, neu am gopi o'r gofrestr lawn, neu'r ddau. Dim ond at y dibenion canlynol y gellir defnyddio'r gofrestr etholwyr wedi'i marcio a'r rhestrau wedi'u marcio: • dibenion ymchwil o fewn ystyr Adran 33 o Ddeddf Diogelu Data 1998 (ymchwil, hanes ac ystadegau) • dibenion etholiadol • dibenion sy'n gymwys o dan y rheoliad sy'n rhoi hawl i'r unigolyn neu'r corff ddefnyddio'r gofrestr lawn o etholwyr

Tabl 8: Copïau o ddogfennaeth etholiad arall

Cyfeiriad cyfreithiol	Gellir eu darparu i	Manylion
Rheoliad 118(8)	Heddluoedd ac asiantaethau eraill (Rheoliad 109)	Yn ogystal ag archwilio'r gofrestr etholwyr wedi'i marcio, rhestr pleidleiswyr post wedi'i marcio, rhestr o ddirprwyon wedi'i marcio, rhestr dirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post wedi'i marcio ac unrhyw ddogfen arall sy'n ymwneud â'r etholiad (heblaw am y papurau pleidleisio, rhestrau rhifau cyfatebol wedi'u cwblhau a thystysgrifau cyflogaeth ar ddyletswydd ar y diwrnod pleidleisio), gall y sefydliadau canlynol wneud cais, am ddim, am gopïau o unrhyw ddogfennaeth etholiad sydd ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio: • unrhyw heddlu ym Mhrydain Fawr • Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon a Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (Wrth Gefn) • yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol • Sefydliad Technoleg Gwybodaeth yr Heddlu • unrhyw gorff o gwnstabliaid a sefydlwyd o dan Ddeddf Seneddol • y Gwasanaeth Diogelwch • Pencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth • y Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Cyfrinachol Dim ond at y dibenion a nodir yn Rheoliad 109(4) y gellir defnyddio'r wybodaeth a ddarperir, h.y.: • yn achos heddluoedd a nodir: – i atal a chanfod troseddau a gorfodi cyfraith droseddol (boed yng Nghymru a Lloegr neu unrhyw le arall) – i fetio unrhyw un perthnasol ar gyfer sicrhau diogelwch cenedlaethol • yn achos y Gwasanaeth Diogelwch, Pencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth a'r Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Cyfrinachol, y dibenion hynny sy'n gysylltiedig â'u swyddogaethau statudol